24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Martin Nicholls,
Prif Weithredwr Dros Dro,
Cyngor Dinas a Sir Abertawe,
Canolfan Ddinesig,
Oystermouth Rd,
Maritime Quarter,
Abertawe.
SA1 3SN

**Cyfeirnod:** 3110A2022

**Dyddiad cyhoeddi:** Mehefin 2022

Annwyl Martin

# Asesiad Sicrwydd a Risg: Diweddariad ar Gynnydd

Wedi ein cyfarfod gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn gynharach eleni, fe ddywedon ni y byddem yn rhoi adborth yn fwy ffurfiol ar rai agweddau penodol o'n gwaith asesu sicrwydd a risg yr ydym wedi'i wneud. Mae'r llythyr hwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiad (Cymru) 2021.

Cynhaliwyd y gwaith hwn fel rhan o'n prosiect Asesu Sicrwydd a Risg (ARA) 2021-22 i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol[1].

Rydym yn cydnabod bod ymateb y Cyngor i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn parhau. Mae'r adborth hwn yn rhoi diweddariad penodol o’r cynnydd o ran sicrwydd a risg ynghylch trefniadau'r Cyngor yn y maes hwn.

---

[1] Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Gall hefyd lywio astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004, a/neu archwiliad a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

### Yr hyn a wnawn

Fe wnaethon ni gynnal ein hasesiad o gynnydd y Cyngor wrth ymateb i ofynion allweddol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 rhwng Mawrth ac Ebrill 2022. Casglwyd y dystiolaeth drwy gyfweliadau ac adolygiadau dogfennau a hefyd edrych ar ganfyddiadau perthnasol yn deillio o'n gwaith arall a fu'n mynd rhagddo yn y Cyngor yn ddiweddar. Roedd ein gwaith yn edrych ar y trefniadau y mae'r Cyngor yn eu rhoi ar waith wrth ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Nid asesiad o effeithiolrwydd y trefniadau hyn oedd y gwaith.

### Yr hyn a ganfuwyd gennym

- **Trefniadau ar gyfer Hunan-Asesu ac Asesiadau Panel**

Mae dull y Cyngor o gynnal ei hunan-asesu wedi ei seilio ar yr egwyddor o ddefnyddio fframweithiau sy'n bodoli eisoes. Mae sawl priodoledd gadarnhaol i'r dull gweithredu gan gynnwys:

- addasu offeryn Hunan-Fyfyrdod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ategu dull integredig o gasglu tystiolaeth i benderfynu ar y cynnydd yn erbyn amcanion llesiant y Cyngor a chyflawni ei gyfrifoldebau hunan-asesu newydd;
- ymwybyddiaeth gorfforaethol a chan Aelodau sy'n glir ac ymrwymiad o ran y dull newydd arfaethedig;
- gwella proses Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor draw i broses Sicrwydd a Rheoli Gwasanaethau;
- defnydd o ddadansoddiad SWOT o fewn ei Gynllunio Gwasanaethau Blynyddol i ddarparu tystiolaeth ychwanegol ar gyfer y broses hunan-asesu;
- integreiddio'r allbwn hunan-asesu terfynol i adolygiad Blynyddol y Cyngor o'i amcanion llesiant, sef, ei Adolygiad Blynyddol o Berfformiad sydd i'w gyhoeddi ym mis Hydref 2022;
- amserlen glir ar gyfer cwblhau'r hunan-asesiad ac ar gyfer sut a phryd y bydd llywodraethu, goruchwylio a chraffu yn rhan o ddylunio a chymeradwyo; a'r

- bwriad i gynnal gwerthusiad o'r broses ar ddiwedd yr iteriad cyntaf i ddysgu unrhyw wersi a gwella'r dull gweithredu.

Gwneir y penderfyniadau ar gyfer y trefniadau a'r amseru ar gyfer yr Asesiad Panel statudol cysylltiedig gan y weinyddiaeth newydd ar ôl etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022.

- **Trefniant ar gyfer y Dyletswydd Ymgynghori a'r Strategaeth Cyfranogi**

Yn ystod y rhan gynnar o 2022, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad ar ei berfformiad yn 2020-21 a'i flaenoriaethau ar gyfer 2022-23. Mae'n bwriadu defnyddio'r dystiolaeth o'r ymgynghoriad hwn wrth ddatblygu ei hunan-asesiad. Er i'r Cyngor geisio ymgysylltu â'r ymgynghorwyr statudol a gynigiwyd yn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau, roedd yr ymateb yn wael. Felly, o ystyried hyn, bydd yn bwysig bod y Cyngor yn dysgu o ganlyniad ac yn mynegi'n glir sut y mae'n bwriadu gwella ei ymgynghoriad ynghylch ei hunan-asesiadau yn y dyfodol ac a yw'r hyn y mae'n ei wneud ar hyn o bryd yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y ddyletswydd ymgynghori hon.

Er bod y gyfradd ymateb i'r arolwg yn isel, roedd nifer o ganlyniadau heriol i rai o gwestiynau'r arolwg, megis y rhai ynghylch y Cyngor yn meddu ar drefniadau llywodraethu da. Bydd yn bwysig sicrhau bod yr allbwn ar gyfer hunan-asesiad y Cyngor yn adlewyrchu'r adborth o'r arolwg cyfan.

Ar yr un pryd â'n gwaith dywedodd y Cyngor wrthym eu bod yn datblygu eu Strategaeth gyfranogi. Fodd bynnag, mae manylion llawn ynghylch statws y strategaeth hon i'w cadarnhau o hyd.

- **Trefniadau ar gyfer y newidiadau i Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio**

Cymeradwyodd y Cyngor gyfansoddiad ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd (G&AC), sef deg cynghorydd a phum aelod lleyg, ym mis Hydref 2021.

Mae gan y pwyllgor ddau aelod lleyg ar hyn o bryd – un ohonynt yw'r Cadeirydd presennol – ac maent yn bwriadu parhau i wasanaethu. Er bod y Cyngor wedi dweud bod yr ymgyrch i recriwtio aelodau lleyg addas wedi bod yn heriol, mae bellach wedi recriwtio a phenodi dau aelod lleyg arall ac mae ail ymgyrch recriwtio ar gyfer yr aelod lleyg ychwanegol terfynol yn mynd rhagddo; 20 Mai 2022 yw'r dyddiad cau ar ei chyfer.

Cyflwynwyd rhaglen hyfforddi ddrafft ar gyfer holl Aelodau G&AC yng nghyfarfod G&AC Ebrill 2022 gan gynnwys hyfforddiant yn ymwneud â sawl cymhwysedd, megis llywodraethu, cyllid, rheoli perfformiad.

- **Trefniadau ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol**

Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ar 13 Ionawr 2022, ar y cyd â'r partneriaid statudol eraill, sef Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Gâr, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro. Gwnaed penderfyniadau statudol allweddol yn y cyfarfod hwn, megis penodi i'r strwythur llywodraethu, cytuno ar y cyfansoddiad a gofynion statudol eraill, megis y rhai sy'n ymwneud â chraffu a throsolwg. Cymeradwywyd y Gyllideb Ddrafft mewn cyfarfod diweddarach ar 25 Ionawr 2022.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru wedi'i drefnu ar sail strwythur is-bwyllgor ar gyfer y meysydd cyfrifoldeb allweddol. Fodd bynnag, penderfynwyd peidio ag integreiddio rhaglenni datblygu economaidd rhanbarthol eraill, megis y Fargen Ddinesig, i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol, ar hyn o bryd, er mwyn osgoi unrhyw darfu posibl ar gyflawni'r Fargen Ddinesig.

- **Defnyddio’r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (GPoC)**

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn asesu cyfleoedd o sut y gallai ddefnyddio‘r GPoC fel rhan o'i Strategaeth Fasnachol ddiwygiedig sy'n ceisio ategu'r gwaith o gyflawni ei uchelgeisiau 'Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd'. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor wedi nodi unrhyw gyfleoedd penodol i ddefnyddio GPoC yn ogystal â gweithgarwch sydd wedi ei ddatblygu o dan y ddeddfwriaeth bresennol.

Mae'r llythyr hwn yn rhan o'r adborth ar ein gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg. Byddwn hefyd yn adrodd maes o law ar dri phwnc arall: cynllunio adfer, lleihau carbon a diweddariad ar gynaliadwyedd ariannol. Y bwriad yw adrodd ar y gwaith ar y tri phwnc hyn yn ystod haf 2022.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i chi a'ch swyddogion am y gefnogaeth barhaus rydych yn ei ddarparu i'n galluogi i gyflawni ein gwaith. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio'n gadarnhaol gyda chi wrth symud ymlaen.

Yn gywir,

Non Jenkins
**Rheolwr Archwilio**